

Adroddiad Blynyddol Fforwm Derbyniadau 2019/20

Awdurdod Derbyn: Cyngor Dinas Casnewydd

Ysgrifennydd i'r Fforwm: Swyddog Addysg Craffu a Chomisiynu

Manylion Cyswllt: 01633 235236

Cyfeiriad: Y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR

Aelodaeth a mynychu'r Fforwm

Enw	Sefyllfa	Amser a wasanaethwyd fel Aelod o'r Fforwm *	Aelodaeth yn ôl categori (gweler y tabl isod)
1. Cyfarwyddwr Ysgolion Esgobaeth Gatholig	Cadeirydd	Ers Rhag '08 (Ail-etholwyd Tach '16)	C
2. Rheolwr Datblygu Gwasanaethau	Is-gadeirydd	Ers Rhag '09 (ail-etholwyd Mawrth '18)	ALI
3. Rheolwr Derbyniadau ac Apeliadau	Aelod Pleidleisio	Ers Tach '12 (ail-etholwyd Tach '16)	ALI
4. Aelod Etholedig	Aelod Pleidleisio	Ers Mawrth '19	ALI
5. Aelod Etholedig	Aelod Pleidleisio	Ers Mawrth '19	ALI
6. Aelod Etholedig	Aelod Pleidleisio	Ers Mawrth '19	ALI
7. Cyfarwyddwr Addysg, Esgobaeth Anglicanaidd Trefynwy	Aelod Pleidleisio	Ers Mawrth '16	EyNgh
8. Pennaeth, Ysgol Gynradd Mount Pleasant	Aelod Pleidleisio	Ers Mawrth '16 (ail-etholwyd Mehefin '20)	Y/CG
9. Pennaeth, Ysgol Gynradd Pilgwenlli	Aelod Pleidleisio	Ers Rhag '08 (Ail-etholwyd Tach '16)	Y/CG
10. Pennaeth, Ysgol Gyfun Caerllion	Aelod Pleidleisio	Ers Tach '18	Y/CG
11. Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff	Aelod Pleidleisio	Ers Tach '10 (ail-etholwyd Rhag '14 a Mawrth '19)	Y/GG
12. Pennaeth, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Mihangel	Aelod Pleidleisio	Ers Mawrth '18	Y/GG

13. Rhiant-lywodraethwr, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon	Aelod Pleidleisio	Ers Tach '15 (ail-etholwyd Rhag '19)	RhL
14. Rhiant-lywodraethwr, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru, Malpas	Aelod Pleidleisio	Ers Mawrth '20	RhL
15. Rhiant-lywodraethwr, Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon	Aelod Pleidleisio	Ers Mawrth '20	RhL
16. Pennaeth Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Gwent	Aelod Pleidleisio	Ers Tach '19	CYM/L
17. Rheolwr AAA	Aelod Pleidleisio	Ers Mawrth '15 (ail-etholwyd Mawrth '19)	CYM/L
18. Athro Ymgynghorol, Blynnyddoedd Cynnar ac ADY	Aelod Pleidleisio	Ers Mawrth '19	CYM/L
19. Cydlynnydd Addysg - Plant sy'n Derbyn Gofal	Aelod nad yw'n pleidleisio	Ers Mehefin '15 (ail-etholwyd Rhag '19)	LA/LAC
20. Swyddog Partneriaeth, Cymorth Addysg HMF	Aelod nad yw'n pleidleisio	Ers Tach '19	LA/AF
21. Ymgynghorydd ar gyfer Ymddygiad ac Awtistiaeth	Aelod nad yw'n pleidleisio	Ers Mawrth '19	LA/ADV

***Os gwasanaethodd am fwy na 4 blynedd, dylid cynnwys dyddiad ail-ethol hefyd.**

Acronymau ar gyfer Aelodau Craidd		
Enwebwyd yr Aelodau gan	Aelodaeth Graidd	Acronym
LA - unrhyw aelod neu swyddog o'r awdurdod	1 i 5	LA, LA/LAC, LA/AF, LA/ADV
Cynrychiolwyr esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru	1 i 3	EYNgh
Cynrychiolwyr yr Esgobaeth Gatholig	1 i 3	C
Ysgolion - cymunedol a gwirfoddol a reolir	1 i 3	Y/CG
Ysgolion - sefydliedig	1 i 3	Y/S
Ysgolion - gwirfoddol a gynorthwyir	1 i 3	Y/GG
Cynrychiolwyr sy'n Rhiant-lywodraethwyr	1 i 3	RhL

Cynrychiolwyr y gymuned leol	Hyd at 3	CYM/L
------------------------------	----------	-------

Dyddiadau cyfarfodydd a phresenoldeb

	Dyddiad	Nifer yr Aelodau o'r Fforwm yn bresennol - yn ôl categori
Cyfarfod cyntaf	19 Tachwedd 2019	10 (4*ALI / 1*EyNgh / 2*Y/GG / 1*Y/CG / 2*CYM/L)
Ail gyfarfod	17 Mawrth 2020	<i>Ni gynhaliwyd y cyfarfod hwn oherwydd Covid - 19</i>
Trydydd cyfarfod	24 Mehefin 2020	14 (5*ALI / 1*C / 1*Y/GG / 2*CYM/L / 1*Y/CG / 1*RhL / 3*Nad ydynt yn pleidleisio)

Cadarnhewch a yw'r awdurdodau derbyn o fewn ardal y fforwm wedi cwblhau'r ymgynghoriad a phenderfynu ar drefniadau derbyn o fewn y terfynau amser sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006 [gan gynnwys ymgynghoriad ar y trefniadau erbyn 1 Mawrth yn y flwyddyn benderfynu a phenderfynu ar y trefniadau terfynol erbyn 15 Ebrill y flwyddyn honno].

Os na fydd unrhyw awdurdod derbyn wedi bodloni'r terfynau amser, rhowch fanylion yma

Faint o ddogfennau ymgynghori rydych chi wedi'u gweld gan awdurdodau derbyn (heb gynnwys awdurdodau lleol eraill)?

Mae pob awdurdod derbyn Cyngor Dinas Casnewydd wedi cwblhau, lle y bo'n briodol, ymgynghoriad a phenderfynu ar drefniadau derbyn yn unol â'r dyddiadau a bennwyd yn y Cod Derbyn i Ysgolion statudol.

**Pa drefniadau derbyn sydd wedi'u gweithredu er mwyn bod o fudd i blant sy'n agored i niwed?
A fuont yn llwyddiannus?
Pa drefniadau eraill rydych chi wedi eu nodi er mwyn cefnogi'r plant hyn?**

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i gynnis gwasanaeth er budd gorau pob plentyn, yn enwedig y rhai a nodwyd fel rhai sy'n agored i niwed. Fel mewn blynyddoedd blaenorol gellir gweld y dystiolaeth ganlynol:

- Rhoddir blaenoriaeth o ran derbyn i Blant sy'n Derbyn Gofal a Phlant a Arferai Dderbyn Gofal ac mae hyn yn cynnwys derbyn disgyblion sy'n derbyn gofal i'r lleoliad ysgol yr ystyrir fel yr un mwyaf priodol i fodloni eu hanghenion hyd yn oed mewn digwyddiadau lle y cyrhaeddwyd neu y rhagorwyd ar y Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd; ac mae'r Cydlynnydd Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn eistedd ar y Fforwm Derbyn er nad yw'n pleidleisio;
- Mae'r Tîm Derbyn i Ysgolion a'r Tîm Anghenion Addysgol Arbennig yn parhau i weithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau priodoldeb lleoliadau ar gyfer plant sydd â datganiadau AAA. Rhoddir blaenoriaeth i'r plant yr enwir ysgol benodol ar eu cyfer yn eu datganiadau. Eto mae hyn yn cynnwys derbyn y disgyblion hyn i'r lleoliad ysgol yr ystyrir fwyaf priodol i fodloni eu hanghenion hyd yn oed mewn digwyddiadau pan y cyrhaeddwyd neu y rhagorwyd ar y Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd ar gyfer y grŵp oedran. Mae'r Rheolwr AAA yn eistedd ar y Fforwm Derbyn;
- Mae Meini Prawf Gordansgrifio'r Cyngor yn cyfeirio yn benodol at blant y gwneir cais ar eu cyfer am reswm meddygol ac yn rhoi blaenoriaeth i blant o'r fath o fewn y categori yn y dalgylch ac y tu allan i'r dalgylch.
- Cadwyd cysylltiadau gyda'r sector nas cynhelir a darpariaeth Dechrau'n Deg er mwyn cynorthwyo gyda threfniadau pontio i ddsbarthiadau meithrin a Derbyn, gan leihau nifer y ceisiadau hwyr ac felly'n cynyddu'r tebygolrwydd o gais llwyddiannus.
- Mae perthynas waith agos gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg sy'n cynorthwyo wrth sicrhau ceisiadau dros ben a hwyr yn y prosesau trosglwyddo fesul cam ac yn ystod y flwyddyn ac wrth dracio'r disgyblion nad ydynt wedi cymryd y lle yn yr ysgol a gynigiwyd iddynt;
- Pennir bod plant teuluoedd Personél Lluoedd Arfog y DU/ Gweision y Goron sy'n bwriadu symud i Gasnewydd yn bodloni'r meini prawf preswlio ar gyfer yr ysgol ddewis os oes tystiolaeth briodol ar gyfer eu cais, sy'n sicrhau felly bod dim anfantais; mae hyn yn cynnwys derbyn plant Personél Lluoedd y DU i ysgol y dalgylch hyd yn oed pan fo'r ysgol wedi cyrraedd y Nifer Derbyn a Gyhoeddwyd ar gyfer y grŵp blwyddyn neu eisoes wedi derbyn mwy;
- Mae protocol lleol ar waith i gyflymu derbyn plant sy'n byw dros dro yn Noddfa Trais Domestig y Ddinas i'r ysgolion dalgylch cynradd ac uwchradd perthnasol er mwyn sicrhau bod eu haddysg mor ddi-dor â phosibl;
- Mae perthnasoedd gwaith agos gyda Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS) yn helpu gyda derbyn plant yn gyflym o deuluoedd lle mae'r Saesneg yn iaith Ychwanegol i'w hysgolion agosaf sydd fwyaf priodol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth yn yr iaith gartref i blant a'u teuluoedd sydd newydd gyrraedd y Ddinas er mwyn hwyluso'r broses derbyniadau ac os oes angen darparu cymorth a chyfieithu yn ystod apeliadau. Mae Pennaeth Gwasanaeth Addysg Ethnig Lleiafrifol Gwent yn eistedd ar y Fforwm Derbyniadau;
- Mae aelod o'r Tîm Derbyn i Ysgolion yn bartner allweddol yn y panel Symud a Reolir wythnosol er mwyn cynnig cyngor a chymorth mewn perthynas â disgyblion sy'n "anodd eu lleoli" a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol.
- Yn naturiol, roedd un pryder penodol eleni yn ymwneud â disgyblion yr effeithiwyd arnynt gan y cyfnod cloi/pandemig. Yng Nghasnewydd, nodwyd yr holl ddisgyblion hynny y dyrannwyd lle mewn ysgol iddynt ond nad oeddent wedyn yn gallu cymryd y lle oherwydd y cyfnod cloi ac os oeddent newydd ddod i'r wlad, cawsant eu rhoi ar y gofrestr ar unwaith fel y gallai'r ysgol newydd gysylltu â'r teulu i roi gwaith o bell, lle oedd hynny'n bosibl.

Pa mor dda y mae'r gweithdrefnau derbyn yn ystod y flwyddyn y cytunwyd arnynt wedi gweithio?

Faint o blant a dderbyniwyd i bob ysgol dan y gweithdrefnau?

A ydych chi wedi nodi cynnydd yn niferoedd y derbyniadau yn ystod y flwyddyn, os felly pa gamau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â'r mater?

Mae poblogaeth Casnewydd yn parhau i gynyddu a chyda hi, nifer y plant oedran ysgol. Bu cynnydd o 2,370 o blant mewn ysgolion yng Nghasnewydd rhwng 2011 a 2019. Mae rhagolygon poblogaeth disgyblion yn dangos, erbyn 2025 y bydd 13,140 o blant ysgol gynradd a 12,046 o blant ysgol uwchradd yng Nghasnewydd sy'n 1,014 o blant ychwanegol o'u cymharu â 2020. O ganlyniad mae nifer y ceisiadau am drosglwyddo yn ystod y flwyddyn, fel y dangosir yn y tabl canlynol, ynghyd â nifer isel y lleoedd ysgol dros ben, yn rhoi'r Tîm Derbyniadau Ysgol o dan bwysau sylweddol o fewn cylch gorchwyl y cod statudol. Fodd bynnag, yn benodol ar gyfer 2019/20, gostyngodd cyfanswm y ceisiadau yn ystod y flwyddyn a dderbyniwyd o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Yn rhannol gellir priodoli hyn i'r pandemig a'r cyfnod cloi cenedlaethol pan gaewyd ysgolion am gyfnod sylweddol. Mae gan y Gwasanaeth Addysg 'Grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol' sefydledig sy'n ystyried y pwysau cyfredol a'r galw yn y dyfodol i sicrhau bod y buddsoddiad cyfalaf a gynllunnir yn canolbwyntio ar gyflawni capasiti i'r dyfodol yn yr ardaloedd sydd ei angen fwyaf.

Derbyniadau yn ystod y flwyddyn: Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd					% yn symud i'r ALI	% lleoedd ysgol ar gael				
Blwyddyn	Meithrin	Cynradd	Uwchradd	Cyfanswm		Blwyddyn (Mehefin)	Cynradd Saes	Uwchradd Saes	Cynradd Cym	Uwchradd Cym
2015/16	154	990	245	1389	57	2016	6	10	15	Dd/B*
2016/17	120	994	229	1343	56	2017	6	10	14	9
2017/18	111	1094	310	1515	44	2018	7	11	16	21
2018/19	138	1028	406	1572	40	2019	7	11	13	26
2019/20	91	789	328	1208	41	2020	8	10	13	27

Er

gwaethaf y sefyllfa heriol yn y ddinas, mae'r rhan fwyaf o ddewisiadau rhieni yn dal i gael eu bodloni, er bod y ffigurau wedi gostwng eleni. Ym mhob gwrandawriad apêl derbyn i ysgolion mae'r Panel wedi symud ymlaen i Gam 2 cyn gwneud penderfyniad, sy'n dangos bod y polisi derbyn i ysgolion yn cael ei gymhwyso'n gyson gywir a bod nifer o'n hysgolion o dan bwysau gwirioneddol o ran capasiti.

Derbyniadau yn ystod y flwyddyn					
Blwyddyn	% y dewisiadau cyntaf a fodlonwyd			% yr apeliadau a gadarnhawyd	
	Meithrin	Cynradd	Uwchradd	Cynradd	Uwchradd
2015/16	92	73	88	17	31
2016/17	68	54	89	23	50
2017/18	90	55	95	11	44
2018/19	91	80	93	3	31
2019/20	78	61	63	7	0

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau y caiff pob cais am drosglwyddo yn ystod y flwyddyn ei brosesu a'i bennu o fewn yr amserlenni a restrir yn y Cod statudol, ac yn gyffredinol gall gyflawni hyn. Serch hynny bu achosion lle na fu hyn yn bosibl. Gellir priodoli hyn yn rhannol i geisiadau mewn perthynas â'r disgyblion oedran ysgol uwchradd lle y mae angen ystyried ffactorau megis priodoldeb dewisiadau'r cwricwlwm a hanes ysgol y plentyn. Yn anochel, cyfeirir rhai achosion at y panel Symud a Reolir, a gaiff, er budd y plentyn, ei ddefnyddio hefyd i drafod priodoldeb lleoliad y disgybl a sicrhau bod y cymorth priodol ar waith wrth iddo gael ei dderbyn. Ar achlysuron eraill,

Pa faterion derbyn allweddol a nodwyd ar gyfer yr ardal? Beth ydyn nhw a sut mae'r fforwm wedi mynd i'r afael â nhw?

- Mae nifer uchel y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol sy'n cyrraedd y Ddinas yn rhoi pwysau ar ysgolion wrth ddarparu ar eu cyfer, yn enwedig mewn achosion sy'n perthyn i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 a 3 sydd wedi cael ychydig iawn o addysg flaenorol neu brofiad o fynd i'r ysgol o bosibl.
- Mae'r pwysau am leoedd y tu allan i'r rownd derbyniadau arferol yn aciwt mewn nifer o leoliadau daearyddol ac mae gan rai ysgolion/clystyrau ychydig o leoedd ar gael yn unig neu ddim lleoedd o gwbl. I'r ysgolion hynny â lleoedd ar gael gall hyn arwain at gynnydd sylweddol mewn meintiau cohort yn ystod y flwyddyn academaidd, sydd yn ei dro'n arwain at broblemau staffio a chyllidebol.
- Pan fydd y Tîm Derbyn i Ysgolion yn methu darparu ar gyfer dewis y rhieni oherwydd y lleoedd sydd ar gael, gall fod sgil-ffeithiau sylweddol gan gynnwys cynnydd o ran darparu trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol a chostau cysylltiedig, anawsterau i rieni y mae ganddynt, o bosibl, blant o oedrannau tebyg mewn dwy ysgol neu fwy, presenoldeb is a phrydlondeb gwael.
- Fel y digwyddodd yn rownd derbyniadau 2019, roedd galw sylweddol unwaith eto am leoedd Blwyddyn 7 yn benodol yn nalgylchoedd Basaleg a John Frost. Mewn ymateb i'r galw eleni, trafododd y Cyngor 77 o leoedd Blwyddyn 7 ychwanegol ar draws y ddwy ysgol uwchradd; 60 ym Masaleg a 17 yn John Frost Ar hyn o bryd dim ond yn ysgolion Uwchradd Llyswry a Llanwern y mae lleoedd Blwyddyn 7 ar gael. Cadarnhawyd capasiti ychwanegol hefyd yn Ysgol Gynradd Bryn Hyfryd ac Ysgol Gymraeg Ifor Hael. Yn anffodus, eleni, gwrthodwyd 13 o leoedd yn Ysgolion Cynradd Parc Jiwbilî a Glasllwch yn brydlon i blant sy'n byw yn nalgylchoedd yr ysgolion hynny, a hefyd yn Ysgol Gymraeg Casnewydd; o'r apeliadau a gafwyd o ran y rhain, dim ond un oedd yn llwyddiannus.
- Mae nifer y ceisiadau trosglwyddo yn ystod y camau hwyr yn parhau'n broblem, gan achosi oedi wrth brosesu ceisiadau a chynyddu'r posibilrwydd felly bod disgyblion yn cael gwrthod lleoedd yn eu hysgolion dewis cyntaf neu yn eu dalgylch. Mae hyn yn achosi ansicrwydd i ddisgyblion, rhieni ac ysgolion yn ystod y broses bontio.
- Oherwydd nifer y ceisiadau trosglwyddo yn y camau hwyr, nifer y trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn a'r pwysau ar leoedd mewn ysgolion cynradd, mae nifer yr apeliadau derbyn a wneir hefyd yn parhau'n uchel. Mae hyn yn rhoi pwysau ar staff yn eu gallu i baratoi at yr achosion hyn a'u cefnogi ac yn aml gall paneli apeliadau gynnal achos rhagfarn rhieni ar y sail fod yr ysgol arall a gynigir yn bellter sylweddol i ffwrdd neu ni all dderbyn yr holl frodyr a chworydd yn yr ysgol.
- Mae'r pandemig/y cyfnod cloi wedi effeithio'n uniongyrchol ar wrandawiadau apeliadau gan y cafodd yr holl gyfarfodydd wyneb yn wyneb eu canslo o fis Mawrth 2020. Yn y pen draw, galluogodd deddfwriaeth ddilynol i wrandawiadau rhithwir gael eu cynnal ond gohiriwyd yr holl apeliadau tan 2 Gorffennaf 2020. O ganlyniad, parhawyd i'w cynnal hyd at Dymor yr Hydref yn 2020, sydd wedi effeithio ar ffrydiau gwaith eraill.

Caiff y Fforwm Derbyn ddiweddariadau rheolaidd ar bob mater derbyn ac mae'r sefyllfa o ran capasiti'n cael ei fonitro'n benodol gan y Grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgol. Mae'r Cyngor wedi ceisio datrys y broblem o geisiadau trosglwyddo ar gam hwyr yn gyson, drwy fwy o gyhoeddusrwydd, hysbysu a gweithio gydag ysgol; ond mae'r niferoedd o hyd yn uchel.

Pa ddulliau mae'r Fforwm wedi'u defnyddio i gyhoeddi unrhyw gyngor neu benderfyniadau?

Caiff cofnodion pob cyfarfod y Fforwm Derbyn, pan gânt eu cytuno, eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, ac felly hefyd adroddiadau blynyddol y Fforwm Derbyn.

Y dyddiad y cyhoeddwyd cyngor y Fforwm ar Wefan yr Awdurdod Derbyn:

Hefyd, rhowch y ddolen berthnasol:

Llofnod: L. Poole (Ysgrifennydd i'r Fforwm)

Dyddiad: 11/11/20

Dychwelwch yr adroddiad cyflawn erbyn 2 Rhagfyr 2019 i:

SchoolsManagementDivision3@wales.gsi.gov.uk

Derbyniadau ac Apeliadau Ysgol - Rownd Derbyn Arferol 2020

Enw'r Ysgol	Nifer derbyn	Nifer y dewisiadau	Nifer y dewisiadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau a dderbyniwyd	Nifer yr apeliadau llwyddiannus	Nifer yr apeliadau a gynhaliwyd ar ôl 30 diwrnod*	Nifer dewisiadau cyntaf y rhieni a fodlonwyd
Ysgol Gynradd Alway	54	64	51	0	0		50
Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion	45	73	45	0	0		44
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams	75	70	65	0	0		65
Ysgol Gynradd Cleidda	30	90	30	3	0		27
Ysgol Gynradd Crindau	45	46	36	0	0		36
Ysgol Gynradd Eveswell	60	135	60	4	0		54
Ysgol Gynradd Gaer	60	119	60	7	0		59
Ysgol Gynradd Glan Llyn	30	53	30	3	0		30
Ysgol Gynradd Glan Wysg	90	157	90	3	0		90
Ysgol Gynradd Glasllwch	30	111	30	7	0		30
Ysgol Gynradd High Cross	30	120	30	0	0		21
Ysgol Gynradd Parc Jiwbilî	45	147	45	12	1		44
Ysgol Gynradd Langstone	45	68	45	1	0		45
Ysgol Gynradd Llanmartin	30	24	20	0	0		20
Ysgol Gynradd Llyswyry	90	105	66	0	0		63
Ysgol Gynradd Maesglas	38	44	38	0	0		30
Ysgol Gynradd Maendy	70	72	44	0	0		43
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas	54	52	34	0	0		33
Ysgol Gynradd Llys Malpas	30	43	26	0	0		22

Ysgol Gynradd Parc Malpas	30	59	30	2	0		30
Ysgol Gynradd Maerun	60	80	59	0	0		60
Ysgol Gynradd Millbrook	45	71	45	1	0		43
Ysgol Gynradd Milton	90	69	57	0	0		56
Ysgol Gynradd Mynwy	60	54	39	0	0		35
Ysgol Gynradd Mount Pleasant	60	102	46	0	0		39
Ysgol Gynradd Pentrepoeth	60	107	60	0	0		56
Ysgol Gynradd Pillgwenlli	78	89	76	0	0		75
Ysgol Gynradd Ringland	36	35	24	0	0		23
Ysgol Gynradd Tŷ-du	60	134	60	2	0		46
Ysgol Gynradd Somerton	29	18	12	0	0		11
Ysgol Gynradd Sant Andrew	90	124	90	0	0		86
Ysgol Gynradd Gatholig Dewi Sant	30	54	30	6	1		30
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Gabriel	27	26	26	0	0		26
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff	30	27	25	0	0		25
Ysgol Gynradd Sant Julian	90	125	85	0	0		78
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	60	60	57	0	0		57
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Michael	30	37	30	1	0		30
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig	30	30	28	0	0		28
Ysgol Gynradd Gwynllyw Sant	45	61	40	0	0		32
Ysgol Gynradd Parc Tredegar	60	72	60	2	0		55
Ysgol Gymraeg Bro Teyrnnon	30	49	30	0	0		29
Ysgol Gymraeg Casnewydd	52	87	52	10	1		51
Ysgol Gymraeg Ifor Hael	45	56	41	0	0		27
Ysgol Basaleg	330	522	330	20	2		323

Ysgol Gyfun Caerllion	248	428	248	4	1		235
Ysgol Uwchradd Llanwern	260	207	152	0	0		146
Ysgol Uwchradd Llyswry	212	237	171	0	0		168
Ysgol Uwchradd Casnewydd	203	234	196	0	0		187
Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Joseff	240	294	240	17	10		240
Ysgol Sant Silian	242	336	242	5	0		229
Ysgol Uwchradd John Frost	240	317	240	3	0		217
Ysgol Gyfun Gwent Is-Coed	150	112	101	0	0		101

**Clywyd pob apêl o fewn yr amserlenni a bennwyd gan reoliadau dros dro Covid – 19.*